Dyddiad cyhoeddi Rhagfyr 2009

Deall canllawiau NICE

Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG

National Institute for Health and Clinical Excellence

Gosod balŵn chwyddadwy i drin syst neu grawniad Bartholin

Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio balŵn chwyddadwy yn y GIG i drin merched sydd â syst neu grawniad Bartholin. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn am nad oes llawer o wybodaeth am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio systiau Bartholin na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â syst neu grawniad Bartholin, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer syst neu grawniad Bartholin. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Gosod balŵn chwyddadwy i drin syst neu grawniad Bartholin

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘gosod cathetr balŵn ar gyfer syst neu grawniad Bartholin’.

Siaradwch â'ch meddyg am ddisgrifiad llawn o'r driniaeth.

Mae chwarren Bartholin ar y naill ochr i agoriad y fagina. Yn ystod cynnwrf rhywiol maent yn cynhyrchu iriad sy'n mynd i mewn i'r fagina drwy ddwythell fach (tiwb) o bob chwarren. Os bydd rhwystr yn y ddwythell gall y chwarren lenwi â mwcws a gall syst (lwmp llawn o hylif) ffurfio. Gall crawniad ffurfio os caiff y chwarren neu'r syst eu heintio. Gall y symptomau gynnwys dolur a phoen, twymyn, a phoen neu anghysurus yn ystod rhyw. Y driniaeth arferol yw cael bath twym, clytiau a phoenladdwyr er mwyn lliniaru'r symptomau. Gellir rhoi gwrthfiotigau os oes haint. Fodd bynnag, os yw'r syst neu'r crawniad yn achosi symptomau ac nid yw'n ymateb i'r triniaethau hyn, gellir defnyddio llawdriniaeth i'w ddraenio neu i wneud agoriad parhaol sy'n caniatáu i'r chwarren ddraenio'n rhwydd.

Mae gosod balŵn chwyddadwy yn driniaeth anlawfeddygol y gellir ei chyflawni fel claf allanol gan feddyg teulu neu nyrs wedi'i hyfforddi'n

arbennig. Mae'n golygu gwneud llwybr o'r syst neu'r crawniad y gall y chwarren ddraenio allan drwyddo. Fel arfer rhoddir anesthetig lleol i'r claf, er y gellir rhoi anesthetig cyffredinol hefyd. Gwneir toriad yn y syst neu'r crawniad, yna caiff ei ddraenio. Gellir cymryd sampl o'r feinwe hefyd er mwyn edrych a oes haint neu diwmor ar y cam hwn. Gosodir tiwb hyblyg (a elwir yn gathetr) sydd â balŵn bach a gynlluniwyd yn arbennig ar ei flaen yn y syst neu'r crawniad er mwyn creu llwybr. Caiff y balŵn ei lenwi â hylif a gellir defnyddio pwyth i gau'r toriad yn rhannol a helpu i gadw'r balŵn yn ei safle. Yna caiff ei adael yn ei le am hyd at 4 wythnos i ganiatáu i'r croen newydd ffurfio o amgylch y llwybr ac i'r clwyf wella. Yna gadewir yr hylif allan o'r balŵn a chaiff ei dynnu allan, gan alluogi'r chwarren i ddraenio drwy'r llwybr newydd ei ffurfio.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod hon yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 3 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth o 35 o ferched â chrawniad Bartholin a gafodd eu trin â chathetr balŵn y gosodwyd 34 allan o 35 cathetr yn llwyddiannus i drin y crawniad ar y dechrau. Arhosodd y cathetr yn ei le am 4 wythnos a gwellodd yn iawn mewn 27 o'r merched hyn, dywedodd 24 ohonynt y byddent yn argymell y driniaeth. Cwympodd y cathetr allan ar ôl 24 awr mewn 3 merch, ar ôl wythnos mewn 3 merch ac ar ôl 11 diwrnod mewn un ferch. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y driniaeth yn llwyddiannus mewn 6 allan o'r 7 merch y cwympodd eu cathetrau allan. Cafodd un ferch lawdriniaeth yn ddiweddarach i drin ei chrawniad.

Mewn 8 allan o 46 o ferched mewn astudiaeth o ferched â systiau neu grawniad Bartholin a gafodd eu trin â chathetrau balŵn, tyfodd y syst neu'r crawniad yn ôl a chafodd y driniaeth ei hailadrodd.

Tyfodd y systiau yn ôl mewn 2 glaf mewn astudiaeth o 68 o ferched a gafodd osod cathetr balŵn. Mewn 1, y tyfodd y syst yn ôl ar ôl 6 mis, credir y tynnwyd y cathetr yn rhy fuan. Datblygodd syst yn y ferch arall 5 mlynedd ar ôl y driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod triniaeth yn llwyddiannus pan fydd merch yn gwella yn yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl y driniaeth ac nid oes syst neu grawniad wedi datblygu eto 6 mis yn ddiweddarach.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn un ferch yn yr astudiaeth o 68 o ferched, credir bod y cathetr wedi ei osod yn anghywir. Niweidiodd y balŵn chwyddedig y croen wrth agoriad y fagina a datblygodd crawniad 'necrotig', sy'n golygu bod meinwe yn y crawniad wedi marw. Cafodd ail ferch yn yr astudiaeth hon ei derbyn i'r ysbyty am 9 diwrnod oherwydd gosodwyd y cathetr yn y lle anghywir. Roedd syst yn dal i fod ganddi flwyddyn yn ddiweddarach.

Dywedodd pum merch yn yr astudiaeth o 35 o ferched iddynt deimlo ychydig yn anghysurus. Dywedodd un ei fod yr anghysur yn gymedrol ac iddi deimlo chwyddo, a ddaeth i ben pan dynnwyd peth o'r hylif o'r balŵn.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd, sydd yn arbenigwyr clinigol yn y maes meddyginiaeth hwn. Dywedodd y cynghorwyr bod problemau posibl yn cynnwys poen os yw'r balŵn yn rhy llawn, y gellid ei lleddfu drwy adael peth o'r hylif allan. Dywedwyd hefyd, y gellid cael problemau eraill mewn egwyddor, megis haint, crawniad yn dychwelyd, gwaedu, poen tra bo'r cathetr yn ei le, creithio, problemau â cholli bylb y cathetr a phoen neu deimlo'n anghysurus yn ystod rhyw.

Rhagor o wybodaeth am syst neu grawniad Bartholin

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon am 'osod cathetr balŵn ar gyfer syst neu grawniad Bartholin'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG204

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8091-8
N2086 1P Dec 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.